Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Menywod a Merched yn y Ddalfa

17 Rhagfyr 2025

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

# Cynnwys

Crynodeb o'r canfyddiadau .... 5
Sylwadau'r panel .... 8
Atodiad – Canfyddiadau'r adolygiad o'r cofnodion dalfa .... 18
Demograffeg .... 18
Dalfeydd .... 19
Amser cyrraedd y ddalfa .... 19
Darpariaethau yn y ddalfa .... 21
Unigolion benywaidd yn y ddalfa .... 23
Hawliau a hawlogaethau .... 25
Lefel arsylwi .... 28
Gwasanaethau cymorth .... 29
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol .... 30
Dillad risg arbennig / ystafelloedd gwrth-rwygo .... 31
Defnyddio grym .... 32
Noeth-chwiliad .... 33
Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd .... 34
Plant yn y ddalfa .... 35
Coch Melyn Gwyrdd .... 37

# Cyflwyniad

Mae tarddiad, diben, a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa i'w gweld ar ein gwefan o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Ym mis Rhagfyr 2025, bu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn canolbwyntio ar unigolion benywaidd yn y ddalfa. Wrth baratoi ar gyfer y gweithgaredd craffu hwn, atgoffwyd y panel o'r *Crynodeb o Ganfyddiadau* o adroddiad y llynedd, y gellir ei weld yma.

Ym mis Gorffennaf 2024, canfu Adroddiad y Fonesig Vera Baird fod unigolion benywaidd yn y ddalfa yn aml yn gweld triniaeth wael, an-sensitifrwydd, a diogelu annigonol. Dyma ddadansoddiad o'r canfyddiadau mewn perthynas â thriniaeth unigolion benywaidd yn y ddalfa yn Heddlu Manceinion Fwyaf:

**Bregusrwydd penodol menywod a merched**

Roedd llawer o'r unigolion benywaidd yn y ddalfa yn oroeswyr cam-drin domestig neu rywiol, ond nid oedd eu hanghenion yn cael eu cydnabod na'u cefnogi'n gyson. Pwysleisiwyd yn yr adroddiad fod menywod yn aml yn mynd i'r ddalfa gyda thrawma cymhleth, sy'n gofyn am driniaeth sensitif.

**Safonau gofal gwael**

Roedd tystiolaeth yn dangos bod safonau isel, ansensitifrwydd, a diffyg gofal wrth ymdrin ag unigolion benywaidd yn y ddalfa, gan gynnwys agweddau diystyriol a diogelu annigonol.

**Pryderon ynghylch noeth-chwiliad**

Canfu'r ymchwiliad gamddefnydd o noeth-chwiliadau, a gynhelir weithiau at 'ddibenion lles' yn hytrach nag ar sail gyfreithiol glir. Roedd hyn yn effeithio yn anghymesur ar fenywod, a chodwyd materion difrifol o ran urddas a diogelu.

**Angen am graffu penodol i rywedd**

Roedd y canfyddiadau yn dangos nad oedd unigolion benywaidd yn y ddalfa yn cael yr un lefel o ystyriaeth â dynion, er eu bod yn wynebu risgiau unigryw.

Atgoffwyd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa am neilltuo swyddogion benywaidd, a phwysigrwydd y broses hon.

**Urddas a phreifatrwydd**

- Efallai y bydd angen cymorth ar unigolion benywaidd yn y ddalfa gyda materion sensitif fel gofal mislif, noeth-chwiliadau, neu les personol. Mae cael swyddog benywaidd yn bresennol yn helpu i warchod urddas ac yn lleihau embaras.

**Diogelu ac ymwybyddiaeth o drawma**

- Mae gan lawer o fenywod yn y ddalfa hanes o gam-drin domestig neu rywiol. Gall rhyngweithio â swyddogion gwrywaidd yn ystod gweithdrefnau personol beri gofid neu aildrawmateiddio. Mae swyddogion benywaidd yn darparu amgylchedd mwy diogel a mwy empathig.

**Cydymffurfedd gyfreithiol a pholisi**

- Mae Cod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) yn ei gwneud yn ofynnol i weithdrefnau'r ddalfa gael eu cynnal yn deg, yn gyfrifol, a heb wahaniaethu. Mae penodi swyddogion benywaidd yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswydd y sector cyhoeddus i ddileu aflonyddu ac erledigaeth.

**Arfer da gweithredol**

- Mae adroddiadau fel Adroddiad Corston a chanllawiau'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan fenywod fregusrwydd penodol yn y ddalfa a bod angen dulliau pwrpasol ar eu cyfer. Mae neilltuo swyddogion benywaidd yn rhan o sicrhau bod gofal yn y ddalfa yn diwallu'r anghenion hyn.

**Ymddiriedaeth a hyder**

- Mae unigolion benywaidd yn y ddalfa yn fwy tebygol o deimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu, ac yn gallu cyfathrebu’n agored pan fyddant yn cael eu cefnogi gan swyddogion benywaidd. Mae hyn yn meithrin ymddiriedaeth ym mhrosesau’r ddalfa ac yn lleihau cwynion.

Gofynnwyd i Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nodi’r canlynol:

1) A neilltuwyd swyddog benywaidd i’r unigolion benywaidd yn y ddalfa.
2) A oedd y swyddog benywaidd a neilltuwyd wedi newid oherwydd hyd y cyfnod y bu’r unigolion benywaidd yn y ddalfa.

Atgoffwyd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa hefyd am y newidiadau mewn gweithdrefnau sy’n ymwneud â phlant yn y ddalfa gyda Heddlu Dyfed-Powys (HDP), a hefyd o ddiben rhestr wirio plentyn yn y ddalfa y gellir ei gweld trwy ein hadroddiad blaenorol yma.

Roedd gan y panel un cwestiwn ychwanegol i’w ystyried yn ystod ei weithgaredd craffu, sef:

- Ai’r un swyddog benywaidd a neilltuwyd drwy gydol cyfnod cadw’r unigolyn benywaidd yn y ddalfa? (mae ffactorau’n cynnwys trosglwyddo, ymateb gweithredol)

I weld y set o gwestiynau y gofynnwyd i’r panel eu hystyried, gallwch glicio yma neu eu gweld drwy ddefnyddio’r cod QR:

# Crynodeb o’r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau’r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

### Nwyddau mislif:

- Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn benywaidd yn y ddalfa wrth gael eu cadw yn y ddalfa.

### Hawliau a hawlogaethau

- Cofnodwyd bod pob unigolyn benywaidd yn y ddalfa wedi cael ei hawliau a’i hawlogaethau wedi’u datgan naill ai wrth gofrestru neu’n ddiweddarach.

### Cyfanswm y cyfnod yn y ddalfa

- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 7 awr a 49 munud. Mae hyn o’i gymharu ag adroddiad y llynedd lle nodwyd mai’r amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 16 awr a 49 munud. Deellir y byddai maint y sampl a oedd yn blant (9 allan o 15 cofnod) wedi dylanwadu ar hyn; fodd bynnag, mae hyn hefyd yn gadarnhaol i’w weld.

### Defnyddio grym a chynnal noeth-chwiliadau

- O’r 15 cofnod a welwyd, ni wnaeth Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa nodi unrhyw achos o ddefnyddio grym na noeth-chwiliad ar unigolion benywaidd yn y ddalfa, a ystyrir yn beth cadarnhaol i’w hurddas; fodd bynnag, cwestiynir a oedd defnyddio grym wedi’i dan-gofnodi.
- Wedi hynny, bu’r heddlu’n adolygu’r achosion a aseswyd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa, a chanfuwyd bod defnyddio grym wedi’i gofnodi mewn 7 o’r 15 cofnod. Bydd trafodaeth ynghylch ble i ddod o hyd i’r wybodaeth hon ar gofnod dalfa o fudd i baneli yn y dyfodol.

### Gwasanaethau cymorth

- Roedd yn braf gweld bod 10 o’r 15 cofnod wedi cael cynnig gwasanaethau cymorth. Mae hyn yn cyfateb i 66%, sy’n gynnydd o 20% ers adroddiad y llynedd, gyda’r prif wasanaethau a gynigiwyd yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, ac yna iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

### Oedolion priodol yn cael eu hadnabod yn briodol

- Nodwyd bod angen oedolyn priodol ar bob merch yn y ddalfa gyda HDP.

### Rhestr wirio plentyn yn y ddalfa

- Roedd pob plentyn a gafodd eu cadw yn y ddalfa wedi cael rhestr wirio plant.
- Dilynwyd holl adolygiadau'r arolygwyr ynghylch y newidiadau i'r gweithdrefnau yn ymwneud â phlant.

### Coch Melyn Gwyrdd

- Ni chofnodwyd unrhyw achosion o gofnodion coch (gofyniad i'r heddlu edrych ar gofnod dalfa penodol oherwydd pryderon a godwyd gan y panel) yn cael eu hadolygu gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa. Roedd 60% o'r cofnodion yn wyrdd a 40% yn felyn. Mae hyn yn dangos bod yr heddlu yn gwneud cynnydd o ran ei ymlyniad wrth weithdrefnau a llywodraethu'r ddalfa.

## Meysydd i'w gwella:

### Neilltuo swyddogion benywaidd, a'r swyddog benywaidd yn cyflwyno ei hun i'r unigolyn benywaidd yn y ddalfa:

- Nodwyd un cofnod heb unrhyw swyddog benywaidd wedi'i neilltuo drwy gydol cyfnod yr unigolyn benywaidd yn y ddalfa gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa.
- Nodwyd dau gofnod lle nad oedd swyddogion benywaidd wedi cyflwyno eu hunain i'r unigolyn benywaidd yn y ddalfa. Nid yw hyn yn welliant ers adroddiad y llynedd.
- Nid oedd gan yr un o'r 7 cofnod a adolygwyd ynghylch swyddogion benywaidd yn cyflwyno eu hunain unrhyw gofnod penodol yn nyddlyfr y ddalfa yn cofnodi'r ffaith hon.

### Darpariaethau coll yn y ddalfa:

- Roedd bylchau yng nghofnodion dalfa unigolion benywaidd yn y ddalfa o ran cael cyfarwyddiadau am gloch y gell, gofyn am eu hymlyniad crefyddol, a phicselu toiled.

**Llais y Plentyn**

- O’r 8 cofnod a oedd yn berthnasol ar gyfer y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, dim ond 5 a gwblhawyd.

# Sylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Sylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Neilltuo swyddog benywaidd i unigolion benywaidd yn y ddalfa** | Nid oedd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa wedi gallu nodi bod swyddog benywaidd wedi'i neilltuo i unigolyn benywaidd yn y ddalfa mewn dau gofnod. A ellir gwirio hyn? | *Gwiriwyd y ddau gofnod dalfa:*<br><br>***Cofnod dalfa 1** – Ni neilltuwyd unrhyw swyddog benywaidd. Mae adborth eisoes wedi'i roi i'r swyddogion dalfa dan sylw gan fod y cofnod hwn wedi'i gynnwys yn yr hap samplo sicrhau ansawdd misol.*<br>***Cofnod dalfa 2** – Neilltuwyd swyddog benywaidd ar gyfer y cofnod dalfa hwn, a chofnodwyd hynny yn y blwch pwrpasol o fewn y cynllun gofal. Dim ond un cynllun gofal a gwblhawyd ar gyfer y cofnod dalfa hwn gan mai dim ond am ychydig dros 1 awr y bu'r unigolyn yn y ddalfa.* |
| **Swyddogion benywaidd yn cyflwyno eu hunain** | Roedd 7 cofnod lle nad oedd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa wedi gallu nodi bod swyddog benywaidd wedi cymryd yr amser i gyflwyno ei hun. A ellir gwirio hyn a chynghori a oes unrhyw wersi i'w dysgu os canfyddir nad ydynt wedi gwneud hynny? | *Adolygwyd pob un o'r 7 cofnod dalfa:*<br><br>***Cofnod dalfa 1** – Swyddog Dalfa a Thywys oedd y swyddog benywaidd a neilltuwyd, a byddai wedi bod wrth ddesg y ddalfa yn ystod y weithdrefn gofrestru.*<br>***Cofnod dalfa 2** – Ni neilltuwyd swyddog benywaidd ac felly ni fyddai wedi cyflwyno ei hun.*<br>***Cofnod dalfa 3** – Dim arnodiad bod swyddog benywaidd wedi cyflwyno ei hun.*<br>***Cofnod dalfa 4** – Swyddog Dalfa a Thywys oedd y swyddog benywaidd a neilltuwyd, a byddai wedi bod wrth ddesg y ddalfa yn ystod y weithdrefn gofrestru.*<br>***Cofnod dalfa 5** – Dim arnodiad bod swyddog benywaidd wedi cyflwyno ei hun. Mae'n werth nodi bod yr unigolyn yn y ddalfa yn cael ei arsylwi'n gyson ar lefel 4, ond nid y swyddog benywaidd a neilltuwyd oedd y* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *swyddog a wnaeth gynnal yr arsylwadau hyn. Yn lle hynny, neilltuwyd swyddog gwrywaidd i fonitro'r unigolyn. Roedd yr unigolyn hefyd yn berson ifanc. Byddai wedi bod yn fwy priodol defnyddio'r swyddog benywaidd a neilltuwyd i gynnal yr arsylwadau cyson ar yr unigolyn yn y ddalfa. Darparwyd adborth i swyddog y ddalfa.*<br>***Cofnod dalfa 6*** *– Y swyddog benywaidd a neilltuwyd oedd y swyddog a wnaeth gynnal arsylwadau cyson lefel 4 ar yr unigolyn yn y ddalfa. Yr un swyddog benywaidd a neilltuwyd a fu'n ymwneud â'r unigolyn benywaidd yn y ddalfa drwy gydol ei chyfnod yn y ddalfa, a fu'n 2 awr a 31 munud. Felly, byddai'r swyddog benywaidd a neilltuwyd wedi bod yn bresennol gyda'r unigolyn, a byddai wedi cyflwyno ei hun.*<br>***Cofnod dalfa 7*** *– Y swyddog benywaidd cyntaf a neilltuwyd oedd y swyddog a fu'n cynnal yr arsylwadau cyson lefel 4 ar yr unigolyn yn y ddalfa, ac felly byddai wedi bod yn bresennol ac wedi cyflwyno ei hun. Y Swyddog Dalfa a Thywys ar ddyletswydd oedd yr ail swyddog benywaidd a neilltuwyd, yn dilyn y trosglwyddo, ond nid oes unrhyw arnodiad bod y swyddog hwn a neilltuwyd wedi cyflwyno ei hun.*<br><br>*Yn dilyn adolygiad o'r cofnodion dalfa uchod, mae 5 o'r 7 cofnod a nodwyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ei gwneud hi'n amlwg y byddai'r swyddog benywaidd a neilltuwyd wedi cyflwyno ei hun naill ai fel aelod o dîm y ddalfa neu swyddog yn cynnal arsylwadau cyson ar yr unigolyn yn y ddalfa. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r cofnodion unrhyw gofnod penodol yn nyddlyfr y ddalfa bod y swyddog benywaidd a neilltuwyd wedi cyflwyno ei hun. Mae hwn yn faes y mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn ymwybodol bod angen ei wella. Mae'r cydymffurfedd â neilltuo swyddogion* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *benywaidd wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, a bydd dull o wella cydymffurfedd o ran cyflwyno yn cael ei ystyried maes o law.* |
| **Lefel arsylwi heb ei dilyn** | Cofnodwyd y lefel arsylwi fel lefel 1 gan aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa, ond nid oedd yn gallu gweld unrhyw gofnod pellach o'r arsylwadau a wnaed. A allwch chi edrych ar y cofnod a rhoi cyngor yn unol â hynny? | *Adolygwyd y cofnod dalfa:*<br><br>*Pennwyd yr unigolyn yn y ddalfa ar gyfer arsylwadau lefel 1, gyda gwiriadau bob 30 munud yn cael eu cymhwyso. Gallaf gadarnhau bod cyfanswm o 10 gwiriad wedi'u cynnal gan y Swyddog Dalfa a Thywys a chwnstabl y ddalfa yn ystod cyfnod yr unigolyn yn y ddalfa, a fu'n 5 awr a 17 munud. Gwnaed yr holl wiriadau o fewn y cyfnodau 30 munud yn unol â'r lefelau arsylwi.*<br><br>*Mae'r cofnodion hyn yn nyddlyfr y ddalfa wedi'u cofnodi o dan y pennawd 'Lles unigolyn yn y ddalfa' sydd hefyd yn gywir.*<br><br>*Nid yw'n glir pam fod yr aelod o'r panel yn cyfeirio at wiriadau lles ac arsylwadau yn cael eu arnodi. Gellir trafod hyn yn ystod sesiwn friffio nesaf y panel i sicrhau bod pob aelod o'r panel yn cael eu gweld wrth ddod o hyd i wiriadau arsylwi a'r pennawd a ddefnyddir.* |
| **Defnyddio grym** | Er ei bod yn braf gweld nad yw'n ymddangos bod grym wedi'i ddefnyddio yn unrhyw un o'r 15 cofnod a welwyd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa, a all yr heddlu roi sicrwydd nad oes risg nad yw cofnodion dalfa yn tan-gofnodi'r wybodaeth hon? | *Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn monitro achosion o ddefnyddio grym ar gofnodion dalfa, ac yn cael 100% o'r data a ddarperir gan yr Uned Gwella Gwasanaethau bob mis. Mae hyn yn cwmpasu'r ddau fath o ddefnyddio grym a gofnodir ar gofnodion dalfa, sef defnyddio grym cyn mynd i'r ddalfa a defnyddio grym yn y ddalfa.*<br><br>*Adolygwyd y cofnodion dalfa a ddefnyddiwyd yn y sampl panel hwn, ac roedd 7 o'r 15 cofnod yn cofnodi defnyddio grym (6 o ddefnyddio grym cyn mynd i'r* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ddalfa, gan ddefnyddio gefynnau, ac 1 o ddefnyddio grym cyn mynd i'r ddalfa ac yn y ddalfa, gan ddefnyddio gefynnau). Felly, roedd 46% o sampl y panel yn cofnodi defnyddio grym nad oedd aelodau'r panel wedi sylwi arno. Gallai trafodaeth ynghylch ble i ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar gofnod dalfa fod o fudd i baneli yn y dyfodol.*<br><br>*Mae'r data o'r panel hwn yn ategu'r data a gafwyd dros y tri mis diwethaf yn yr archwiliad 100%. Mae cyfanswm y data o ran defnyddio grym yn dangos bod dros 50% o unigolion yn mynd i'r ddalfa heb unrhyw ddefnydd o rym cyn mynd i'r ddalfa (e.e. gefynnau, ac ati) a dim defnydd o rym yn y ddalfa (e.e. gweithdrefn celloedd, ac ati). Mae hyn hefyd wedi'i gadarnhau yn ystod ymweliadau â'r ddalfa, a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Dalfa, ac adborth gan swyddogion dalfa ar draws yr heddlu. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro drwy archwiliadau misol, ond mae'n ymddangos bod y data'n dilyn patrwm cyson.*<br><br>*Mae hyn wedi cael ei drafod gyda Gweithrediadau Arbenigol, ac mae gwaith cwmpasu wedi dechrau gyda heddluoedd eraill, sydd â demograffeg a galw tebyg o ran y ddalfa, i ganfod a ydynt yn gweld niferoedd tebyg o ran defnyddio grym.*<br><br>*Yn ddiweddar, cytunodd y Gwasanaethau Dalfa i gyflwyno cynnig sy'n deillio o geisiadau, a gyflwynwyd gan heddlu arall o fewn ein cydweithrediad Niche, a fydd yn symleiddio'r broses o gofnodi'r defnydd o rym yn y ddalfa ac yn sicrhau bod hyn yn dod gyda chofnod dalfa a bod y cwestiynau perthnasol ar yr asesiad risg yn cael eu diwygio. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos bod unrhyw dan-gofnodi o ran defnyddio grym* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *yn y ddalfa, ond bydd y gwelliant Niche hwn yn gwella'r broses gofnodi beth bynnag.* |
| **Dim manylion am unigolyn yn y ddalfa yn gweld cyfreithiwr** | Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ddau achos lle nad oedd yn ymddangos bod cofnod o unigolion yn y ddalfa yn gweld cyfreithiwr. A allwch chi edrych ar y cofnodion a nodi a allwch chi ddod o hyd i'r manylion hyn; ac os na, a allwch chi roi gwybod a fydd adborth yn cael ei ddarparu i staff y ddalfa? | *Adolygwyd y ddau gofnod dalfa:*<br><br>***Cofnod dalfa 1** – Mae cofnod am 3.32pm bod yr unigolyn benywaidd yn y ddalfa wedi ymgynghori â'i chyfreithiwr (gan ddarparu enw'r cyfreithiwr), ac mae hyn yn dilyn cofnod bod yr unigolyn benywaidd yn y ddalfa wedi cael ei chyf-weld gyda chyfreithiwr ac oedolyn priodol yn bresennol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi na chwblhawyd y broses o drosglwyddo'r unigolyn benywaidd yn y ddalfa i ystafell y cyfreithiwr ar gyfer ymgynghori, a'r ystafell gyf-weld ar gyfer cyfweliad, gan swyddog y ddalfa. Mae'n bwysig bod y trosglwyddiadau hyn yn cael eu cyflawni fel trywydd archwilio o symudiadau'r unigolyn yn y ddalfa drwy gydol y cyfnod yn y ddalfa. Bydd adborth yn cael ei roi i swyddog y ddalfa.*<br>***Cofnod dalfa 2** – Dim ond yn y ddalfa y bu'r unigolyn, a oedd yn berson ifanc, ac ni fu'n destun cyfweliad dan amheuaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae arnodiad gan swyddog y ddalfa sy'n tynnu sylw at y ffaith bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi'i ryddhau yn destun ymchwiliad i gael ei gyf-weld yn ddiweddarach ac ar adeg mwy cymdeithasol o'r dydd. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gynghorodd y gellid dychwelyd yr unigolyn benywaidd yn y ddalfa i'w lleoliad gofal presennol. Felly, nid oes unrhyw arnodiad bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi gweld cyfreithiwr gan nad oedd gofyniad i gyfreithiwr fod yn bresennol yn dilyn y penderfyniad i'w ryddhau yn destun ymchwiliad.* |
| **Dim rheswm dros oedi cyn** | Nodwyd 4 cofnod gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad oedd rheswm | *Adolygwyd pob un o'r pedwar cofnod dalfa:* |

| | | |
|---|---|---|
| **cael oedolyn priodol yn bresennol** | dros yr oedi cyn i unigolyn benywaidd yn y ddalfa gael oedolyn priodol yn bresennol. A ellir gwirio hyn a chynghori a oes unrhyw ddysgu priodol wedi'i nodi o hyn? | ***Cofnod dalfa 1*** *– Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 2.01am, gydag ymholiadau i'w cwblhau cyn y cyfweliad, ac felly byddai'r unigolyn yn y ddalfa wedi bod angen cyfnod o orffwys digonol cyn y cyfweliad. Gwnaed cais am oedolyn priodol am 9.16am, ychydig dros 7 awr ar ôl cyrraedd, a chyrhaeddodd oedolyn priodol am 10.45am. Nid oes unrhyw wersi i'w dysgu o'r cofnod hwn gan ei fod yn cydymffurfio â PACE ynglŷn â'r gofyniad am gyfnod o orffwys.*<br>***Cofnod dalfa 2*** *– Ni fu unrhyw oedi cyn i'r unigolyn hwn yn y ddalfa gael oedolyn priodol yn bresennol. Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 2.12pm, a chafodd y cyfnod yn y ddalfa ei awdurdodi am 2.41pm. Gwnaed y cais am oedolyn priodol am 2.00pm, cyn i'r unigolyn yn y ddalfa gyrraedd y ddalfa, ac mae'n debyg i hyn gael ei gwblhau'n gynnar yn dilyn trafodaeth rhwng swyddog y ddalfa a'r swyddog arestio. Cyrhaeddodd yr oedolyn priodol y ddalfa am 2.50pm, sef 38 munud ar ôl i'r unigolyn yn y ddalfa gyrraedd, a 9 munud ar ôl awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa. Nid wyf yn ystyried 38 munud yn oediad cyn cael oedolyn priodol yn bresennol.*<br>***Cofnod dalfa 3*** *– Ni fu unrhyw oedi cyn i'r unigolyn hwn yn y ddalfa gael oedolyn priodol yn bresennol. Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 10.54pm, a chyrhaeddodd yr oedolyn priodol am hanner nos, 1 awr a 6 munud ar ôl i'r unigolyn gyrraedd y ddalfa. Y gweithiwr cymdeithasol ar alwad oedd yr oedolyn priodol a ddefnyddiwyd, a ddaeth i'r ddalfa y tu allan i oriau gwaith. Felly, mae'n dderbyniol bod yr oedolyn priodol wedi cyrraedd ychydig dros awr ar ôl i'r unigolyn yn y ddalfa gyrraedd.*<br>***Cofnod dalfa 4*** *– Cyrhaeddodd yr unigolyn benywaidd y ddalfa am hanner nos, a gwnaeth y ddalfa ymdrechion ar unwaith i drefnu bod aelod o'r teulu yn dod i'r ddalfa fel oedolyn priodol er mwyn iddi allu cael ei rhyddhau yn* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *destun ymchwiliad. Cyrhaeddodd yr oedolyn priodol am 2.00am. Nid oedd dyfodiad yr aelod hwn o'r teulu o fewn rheolaeth staff y ddalfa, ac ni fyddwn yn ystyried yr oedi hwn yn ormodol.*<br><br>*Efallai y bydd hyn yn gofyn am drafodaeth bellach gydag aelodau'r panel o ystyried bod yr oedi a amlygwyd yma wedi bod yn 38 munud, 1 awr a 2 awr. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw un o'r adegau uchod yn oedi gormodol cyn i oedolyn priodol gyrraedd. Gall oedolion priodol ddod o amrywiol ffynonellau gan gynnwys aelodau o'r teulu, gwasanaethau cymdeithasol, timau troseddwyr ifanc, gweithwyr cymorth, ac ati. O ystyried daearyddiaeth ardal HDP, bydd oedi oherwydd amser teithio yn dilyn cais am eu presenoldeb yn y ddalfa. Byddai trafodaeth bellach yn ddefnyddiol i ganfod pa gyfnod o amser y byddai aelodau'r panel yn ei ystyried yn oedi cyn i'r oedolyn priodol gyrraedd.* |
| **Achos penodol (wedi'i nodi mewn melyn)** | Nododd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa o gofnod dalfa bod oedi cyn i unigolyn benywaidd yn y ddalfa gael ei hawliau wedi'u datgan, dim tystiolaeth o fwyd yn cael ei gynnig, a dim cofnod o swyddog benywaidd yn cael ei neilltuo. A allwch chi edrych ar y cofnod a rhoi tawelwch meddwl o ran y pryderon a godwyd? | *Adolygwyd y cofnod dalfa ynghylch y pryderon a godwyd:*<br><br>***Oedi wrth i unigolyn yn y ddalfa gael ei hawliau wedi'u datgan:***<br>*Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa yn feddw, ac felly ni ellir cwblhau a llofnodi datganiad o ran hawliau a hawlogaethau nes bod sobrwydd wedi'i adfer. Mae hyn yn cael ei lywodraethu gan PACE, ac i sicrhau bod yr unigolyn yn y ddalfa yn deall ei hawliau a'i hawlogaethau yn llawn, gan ganiatáu iddo wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ydyw am dderbyn cyngor cyfreithiol, rhoi gwybod i rywun am ei arestio, adolygu'r codau ymarfer, ac yna llofnodi i gadarnhau ei ddewisiadau. Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 8.43am, a chwblhawyd yr adran 'Hawliau a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *hawlogaethau' o'r cofnod dalfa am 8.54am. Mae hyn yn tystio bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi cael datganiad o'i hawliau a hawlogaethau ond bod oedi cyn eu llofnodi oherwydd meddwdod. Mae cofnod yn nyddlyfr y ddalfa am 11.14am yn awgrymu bod sobrwydd yn ymadfer, ac yna ailddatganwyd yr hawliau pan oedd yr unigolyn yn y ddalfa yn sobr am 1.03pm ac wedi'u llofnodi. Nid oes unrhyw wersi i'w dysgu o hyn gan fod PACE wedi'i ddilyn.*<br><br>***Dim tystiolaeth o fwyd yn cael ei gynnig:***<br>*Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa yn feddw am 8.43am, a chafodd ddŵr a blanced am 9.01am. Cynhaliwyd gwiriadau bob 30 munud ar yr unigolyn yn y ddalfa, a chafodd gyfnod o gwsg. Unwaith y cafwyd adferiad o ran sobrwydd, a datganiad o'r hawliau a hawlogaethau wedi'i wneud, gwrthododd yr unigolyn yn y ddalfa gyngor cyfreithiol, ac felly aeth i gyfweliad dan amheuaeth ar unwaith. Mae cofnod yn nyddlyfr y ddalfa cyn y cyfweliad yn dangos bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi cael dŵr cyn y cyfweliad. Yn dilyn y cyfweliad, rhyddhawyd yr unigolyn o'r ddalfa heb unrhyw gamau pellach. O ystyried bod yr unigolyn wedi bod yn y ddalfa am ychydig dros 5 awr, nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch yr arsylwad hwn. Mae'n debygol, o ystyried bod dŵr wedi cael ei gynnig i'r unigolyn yn y ddalfa, ei bod wedi cael cynnig bwyd ar yr un pryd ond ei bod wedi ei wrthod. Fodd bynnag, byddai cofnod yn nyddlyfr y ddalfa, neu wybodaeth ychwanegol ar y cofnodion ynghylch y dŵr a ddarparwyd, i nodi bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi gwrthod bwyd wedi bod yn ddefnyddiol.*<br><br>***Dim swyddog benywaidd wedi'i neilltuo:*** |


| | | |
|---|---|---|
| | | *Gallaf gadarnhau bod yr arsylwad hwn yn gywir. Ni neilltuwyd unrhyw swyddog benywaidd. Mae adborth eisoes wedi'i roi i'r swyddogion dalfa dan sylw gan fod y cofnod hwn wedi'i gynnwys yn yr hap samplo sicrhau ansawdd misol.* |
| **Rhestr wirio plentyn yn y ddalfa** | Er bod rhestr wirio plentyn yn y ddalfa wedi'i chwblhau, dywedodd aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod Llais y Plentyn a Reachable Moments yn aneglur ac, mewn cofnod arall, bod y rhestr wirio anghywir wedi'i defnyddio. A allwch chi edrych ar ansawdd cofnodi'r rhestr wirio a chynghori a oes angen gwneud mwy o waith o ran cofnodi'r wybodaeth a ddarperir gan staff y ddalfa yn y maes hwn? | *Adolygwyd y ddau gofnod dalfa:*<br><br>***Cofnod dalfa 1*** *– Defnyddiwyd y rhestr wirio anghywir ar y cofnod dalfa hwn, nad yw'n cynnwys adran ar gyfer Llais y Plentyn. Mae'r cwestiwn Reachable Moments wedi'i ateb ond mae'n nodi'n syml nad oedd y plentyn am ymgysylltu â'r swyddogion.*<br>***Cofnod dalfa 2*** *– Mae'r rhestr wirio gywir wedi'i hatodi i'r cofnod dalfa hwn, ond mae ansawdd / manylder yr arnodiadau yn annigonol, gyda'r rhan fwyaf o'r adrannau wedi'u gadael yn wag, gan gynnwys Llais y Plentyn a Reachable Moments.*<br><br>*Rhoddwyd adborth i'r swyddog dalfa a fu'n ymwneud â'r cofnodion dalfa uchod, ac y mae negeseuon wedi'u cyfathrebu i holl staff dalfeydd HDP ynghylch defnyddio'r rhestr wirio gywir ar gyfer plant yn y ddalfa. Roedd y rhestr wirio wedi'i chynnwys yn y negeseuon cyfathrebu hyn, ond y mae hefyd ar gael ar dudalen y ddalfa ar fewnrwyd yr heddlu, a gall pob swyddog HDP ei gweld.*<br><br>*Mae Gwasanaethau'r Ddalfa wedi bod yn ymwybodol bod angen gwelliant yn y maes hwn, ac mae'r prosiect Reachable Moments wedi'i gyflwyno i wella nid yn unig cydymffurfedd yr heddlu yn y maes hwn, ond hefyd i wella lefel yr ymgysylltiad ystyrlon â phlant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, a dealltwriaeth fwy manwl o'u hanghenion. Aeth y prosiect Reachable Moments yn fyw ar 12 Ionawr 2026, ac y mae'n golygu y bydd pob* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *plentyn sy'n mynd i mewn i ddalfeydd HDP yn cael cymorth gan un o weithwyr Reachable Moments. Bydd y gweithiwr Reachable Moments (RMW) yn aros yn y ddalfa cyhyd ag y bo angen, gan ddarparu cymorth i'r plentyn, meithrin perthynas, cael trafodaeth i ddeall ei broblemau / pryderon cyfredol, a bydd hyn yn galluogi'r RMW a HDP i nodi unrhyw ffactorau achosol y tu ôl i'w hymddygiad troseddol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dogfennu gan yr RMW mewn cynllun gofal, a seren ddeilliant yn cael ei chyflwyno. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu i staff y ddalfa a'i rhoi ar y cofnod dalfa. Bydd hyn yn sicrhau gwelliant yn ansawdd yr wybodaeth a geir gan blant yn y ddalfa, ac yn caniatáu mabwysiadu dull mwy pwrpasol o ran atgyfeiriadau i asiantaethau cymorth sy'n benodol i anghenion y plentyn. Bydd hyn yn gwella'r cymorth a geir yn ystod ac ar ôl y cyfnod yn y ddalfa. Mae pob RMW yn gymwys ac â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac maent yn annibynnol ar yr heddlu. Bydd hyn yn dileu'r rhwystrau i ymgysylltu sydd wedi bodoli ers peth amser, gyda phlant ddim eisiau ymgysylltu â'r swyddogion heddlu sydd heb y profiad na'r set sgiliau perthnasol i ymgysylltu â phlant ar y lefel hon. Bydd gweithwyr Reachable Moments yn cael toreth o wybodaeth gan blant yn y ddalfa, wrth gwblhau'r adran Reachable Moments o'r rhestr wirio, a dylai cydymffurfedd wella nawr, yn ogystal ag ansawdd yr arnodiadau.* |

# Atodiad – Canfyddiadau'r adolygiad o'r cofnodion dalfa

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel, a ddadansoddwyd i nodi'r agweddau cadarnhaol a'r meysydd y mae angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalfa, gyda ffocws ar unigolion benywaidd yn y ddalfa. Adran ategol i'r adroddiad yw hon i roi cyd-destun i'r adrannau *Crynodeb o'r canfyddiadau* a *Sylwadau'r panel* uchod.


## Demograffeg








- Gwyn Prydeinig oedd yr ethnigrwydd a gofnodwyd yn yr holl gofnodion yn ymwneud â phlant yn y ddalfa a welwyd ar gyfer yr hap samplo hwn.

# Dalfeydd






# Amser cyrraedd y ddalfa




**Yr amser a aeth heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa**

- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa ac awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa oedd 35 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd 2 awr ac 1 munud, ac nid oedd yr aelod panel yn gallu canfod rheswm dros yr oedi.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn yn y ddalfa gael ei gyfnod yn y ddalfa wedi'i awdurdodi oedd o fewn 1 munud.








**Cyfanswm y cyfnod yn y ddalfa**


- Roedd un achos lle na chafodd cyfnod yn y ddalfa ei awdurdodi.
- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 7 awr a 49 munud.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 30 awr.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 1 awr a 25 munud.


- Gofynnwyd i'r panel benderfynu a oedd angen yr arestio. Dyma'r rhestr o anghenion o dan PACE:
  - Er mwyn canfod enw neu gyfeiriad person
  - Er mwyn atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill
  - Er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo
  - Er mwyn atal trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus
  - Er mwyn gwarchod plentyn neu unigolyn bregus
  - Os oes rhwystr anghyfreithlon i'r briffordd
  - Er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd
  - Er mwyn atal ymchwiliad i drosedd neu erlyniad yr unigolyn dan amheuaeth rhag cael ei rwystro.
- Yr angen amlycaf i arestio a nodwyd oedd *cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd* ac yna

# Darpariaethau yn y ddalfa





- Yn dilyn adroddiad blaenorol Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar ddefnyddio grym, atgoffwyd y panel nad yw crefydd ar hyn o bryd yn rhan o'r cwestiwn asesu risg a osodwyd ers cyflwyno Niche, ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos, sydd y tu allan i gylch gwaith HDP. Nid yw'n faes gorfodol y mae angen ei gwblhau ychwaith, sy'n golygu y gellir ei fethu ar adegau. Mae crefydd bellach wedi'i chynnwys yn adran enw a gwybodaeth yr unigolyn ar y cofnod dalfa. Felly, i gywiro hyn, mae aelodau Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn ymgynghori â'r arolygydd yn y cyfarfod, sydd â mynediad at gofnod dalfa llawn Niche, i ddilysu a ydyw wedi'i nodi.







- O ran yr unigolyn na chynigiwyd bwyd a lluniaeth iddo, ac na ofynnwyd am ei ofynion dietegol, ni nodwyd hynny yn y cofnod dalfa gan mai ychydig dros ddwy awr y bu'r unigolyn yn y ddalfa.
- Nid yw Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa dal heb ddod o hyd i unrhyw gofnod sy'n manylu ar bicselu toiled na manylion lle mae unigolion yn y ddalfa yn cael cyfarwyddyd ynghylch sut i ddefnyddio cloch y gell yn y cofnodion y mae'n craffu arnynt.




# Unigolion benywaidd yn y ddalfa

A neilltuwyd swyddog benywaidd lle bo angen ar gyfer unigolyn benywaidd yn y ddalfa?





- Cofnodwyd bod un cofnod dalfa yn amherthnasol oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y ddalfa heb ei awdurdodi gan ringyll y ddalfa.
- Roedd yr achos amherthnasol arall gan yr un swyddog drwy gydol cyfnod yr unigolyn yn y ddalfa oherwydd bod cyfanswm ei amser yn y ddalfa yn llai na 2 awr.


Ai'r un swyddog benywaidd a neilltuwyd trwy gydol cyfnod yr unigolyn yn y ddalfa?






A wnaeth swyddog benywaidd gyflwyno'i hun i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa?





A ofynnwyd i'r unigolyn yn y ddalfa a hoffai siarad â rhywun o'r un rhyw?





A gynigiwyd cynhyrchion mislif?
2
12
Do
Amh


A yw'r cofnod yn cyfeirio at unrhyw geisiadau hylendid
2
2
11
Do
Naddo
Amh

# Hawliau a hawlogaethau





- Fel y nodir uchod, mae'r cofnod dalfa amherthnasol yn ymwneud â'r ffaith nad oedd cyfnod yr unigolyn yn y ddalfa wedi'i awdurdodi.


**Pa mor hir, ar ôl awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa, y gwnaeth yr unigolyn yn y ddalfa gais am gyfreithiwr?**

- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i unigolyn yn y ddalfa wneud cais am gyfreithiwr oedd 1 awr a 39 munud.
- Mewn 5 cofnod o'r 15 a welwyd, gwrthododd unigolion benywaidd yn y ddalfa yr opsiwn o gynrychiolaeth gyfreithiol.
- Y cyfnod hiraf i unigolyn yn y ddalfa wneud cais am gyfreithiwr oedd 9 awr.
- Mewn cyferbyniad, y cyfnod byrraf oedd yn syth ar ôl awdurdodi cyfnod unigolyn yn y ddalfa.

**Yr amser a gymerwyd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**


- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 23 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd 1 awr ac 20 munud.
- Y byrraf oedd 1 munud.




**Yr amser a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd o'r adeg cysylltu**


- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais i fod yn bresennol oedd 1 awr a 33 munud.
- Nid oedd gan y panel unrhyw sylwadau penodol ynghylch cynrychiolaeth gyfreithiol, ac eithrio i'r unigolion benywaidd hynny yn y ddalfa a wnaeth gais am gyfreithiwr, ac a welodd un ar unwaith.




- Gofynnwyd i’r panel nodi’r dull gwaredu er mwyn asesu a oedd cadw’r unigolion benywaidd yn y ddalfa yn gymesur â’r angen i’w harestio.
- Y dull gwaredu amlaf oedd mechnïaeth amodol, sef y broses sy’n caniatáu i swyddogion ychwanegu amodau i fechnïaeth, a all gynorthwyo dioddefwyr a/neu dystion, diogelu tystiolaeth, a llesteirio troseddau pellach rhag cael eu cyflawni.

# Lefel arsylwi








- Pennwyd lefel arsylwi ar gyfer pob cofnod dalfa a adolygwyd.
- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
  - Lefel 1 – cyffredinol (o leiaf unwaith bob awr)
  - Lefel 2 – ysbeidiol (bob 30 munud)
  - Lefel 3 – cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
  - Lefel 4 – yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos)

- O’r cofnodion unigol yr ystyriwyd eu bod yn amherthnasol, roedd hyn oherwydd nad oedd cyfnodau’r unigolion benywaidd yn y ddalfa wedi’u hawdurdodi.
- O’r ddau gofnod ar lefel 2, roedd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa o’r farn bod y ddalfa yn cydymffurfio â sicrhau bod yr unigolyn yn y ddalfa ar ddeffro.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â’r lefelau arsylwi:
  1) Cafodd y lefelau arsylwi eu huwchraddio a’u hisraddio’n briodol.
  2) Cadwyd at y lefel arsylwi ond ymddengys bod swyddog gwrywaidd yn bresennol er gwaethaf y ffaith bod swyddog benywaidd wedi’i neilltuo. Nid oedd y swyddog benywaidd ar gael wrth iddynt ddod yn weithredol.

# Gwasanaethau cymorth


A gafodd yr unigryw fynediad/cynnig/cyfeirio at unrhyw wasanaethau cymorth tra bu yn y ddalfa?




- Nodwyd gan aelodau'r panel, o fewn 4 cofnod, fod unigolion benywaidd yn y ddalfa wedi gwrthod yr opsiwn o wasanaethau cymorth; fodd bynnag, roedd 5 achos lle nad oedd tystiolaeth bod gwasanaethau cymorth wedi'u darparu.
- Pwysleisiodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa mai'r prif wasanaeth a gynigiwyd i unigolion benywaidd yn y ddalfa oedd y gwasanaethau cymdeithasol, ac yna iechyd meddwl a chymorth camddefnyddio sylweddau ar gyfer dibyniaeth.

# Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol




- Cadarnhaodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod pob unigolyn benywaidd yn y ddalfa a oedd angen gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi gweld un.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â darparu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol:

# Dillad risg arbennig / ystafelloedd gwrth-rwygo

- Nid oedd unrhyw achosion o unigolion benywaidd yn y ddalfa yn gwisgo dillad risg arbennig. Mae hyn oherwydd bod HDP wedi penderfynu cael gwared ar ddillad risg arbennig ym mis Mai 2025.
- Ni thynnwyd y dillad trwy rym mewn unrhyw achos.


## Defnyddio grym


- Nid oedd unrhyw achosion o ddefnyddio grym ar unigolion benywaidd yn y ddalfa yn y 15 cofnod dalfa a welwyd.

## Noeth-chwiliad

- Nid oedd unrhyw achosion lle bu unigolion benywaidd yn y ddalfa yn destun noeth-chwiliad yn y 15 cofnod dalfa a welwyd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa.


# Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd





- Yr amser cyfartalog i'r heddlu wneud y cyswllt cyntaf â'r oedolyn priodol a gofnodwyd oedd 1 awr ac 1 munud.
- Yr amser cyfartalog cyn y cyswllt cyntaf rhwng yr unigolyn yn y ddalfa a'r oedolyn priodol oedd 4 awr ac 1 munud.
- Nododd y panel y rhesymau canlynol, heblaw'r ffaith bod un yn blentyn, pam roedd gan yr unigolion benywaidd yn y ddalfa fregusrwydd ychwanegol:
- Chwe achos o fod yn niwrowahanol
- Epilepsi / trawiadau
- Dibyniaeth ar sylweddau
- Dau achos o iechyd meddwl gan gynnwys anhwylder deubegynol ac iselder
- Beichiogrwydd
- Dioddefydd ymosodiad rhywiol
- Ym mhob cofnod a adolygwyd, nodwyd gan yr heddlu fod angen oedolyn priodol, a chysylltwyd â phob unigolyn a enwebwyd.
- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i'r heddlu gysylltu ag oedolyn priodol oedd 2 awr a 35 munud.
- Yr amser cyfartalog cyn y cyswllt cyntaf rhwng y plentyn yn y ddalfa a'r oedolyn priodol oedd 4 awr ac 16 munud. Mewn tri achos, ni ddarparwyd unrhyw reswm dros yr oedi.


# Plant yn y ddalfa























- Cafodd un cofnod dalfa ei ystyried yn anghymwys gan nad oedd y cyfnod yn y ddalfa wedi'i awdurdodi.
- Gwnaeth Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r rhestr wirio plentyn yn y ddalfa:
  - *'Roedd nifer o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn 'aros i'w cwblhau' ar y ffurflen.'*
  - Nodwyd bod yr adran ynghylch cyswllt â'r gwasanaethau cymdeithasol yn 'amherthnasol' er bod y cofnod dalfa yn dangos bod cyswllt wedi'i wneud i geisio lleoliad amgen gan fod y cartref gofal presennol wedi gwrthod cymryd yr unigolyn yn ôl.
  - Cwblhawyd y rhestr wirio; fodd bynnag, roedd dau achos lle na recordiwyd Llais y Plentyn na'r *Reachable Moments*.

# Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod dalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu sgoriau cyffredinol o'r cofnod dalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

| Enghreifftiau o resymau dros y sgoriau | Camau dilynol |
|---|---|
| **Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad, neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cynorthwyo unigolion yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur.** | **Dim camau pellach ar hyn o bryd** |
| **Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r unigolyn yn y ddalfa.** | |
| **Defnyddiwyd dulliau dad-waethygu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn yn y ddalfa rhag hunan-niweidio bwriadol.** | |
| **Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.** | **Cyngor / hyfforddiant pellach i staff y ddalfa** |
| **Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa gael ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.** | |
| **Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.** | |
| **Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw'r cyfiawnhad yn gymesur.** | **Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â'r diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.** |
| **Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg, a heb unrhyw resymeg arall.** | |
| **Oedi sylweddol wrth i'r unigolion yn y ddalfa weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol, neu gael oedolyn priodol yn bresennol.** | |
| **Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd yr unigolyn yn y ddalfa.** | |




Y rhesymeg a bennwyd i bob gradd lliw oedd asesiad / barn aelodau unigol y panel o gofnod dalfa yr aseiniwyd iddynt. Isod mae peth o'r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu sgoriau:

| Gwyrdd | Melyn |
|---|---|
| *'Ni chafodd menyw oedrannus ei rhoi yn y gell, a chafodd ei rhyddhau ar fechnïaeth ar unwaith.'* | *'Oedi wrth gyflwyno hawliau unigolyn yn y ddalfa; dim tystiolaeth o fwyd yn cael ei gynnig. Dim cofnod o swyddog benywaidd yn cael ei neilltuo i unigolyn yn y ddalfa.'* |
| *'Gweithdrefnau wedi'u dilyn. Wedi'u dogfennu'n dda. Gofynnwyd am weithiwr gofal iechyd proffesiynol ond gwrthododd yr unigolyn yn y ddalfa weld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol pan aeth i'r gell.'* | *Asthma wedi'i grybwyll ond dim sôn am argaeledd meddyginiaeth yn y ddalfa pe bai'r unigolyn yn y ddalfa yn gofyn amdani.* |
| *'Cofnod manwl da. Swyddogion benywaidd a newid swyddogion yn yr achos hwn wedi'u cofnodi'n glir.'* | *'Ddim yn siŵr ynglŷn â swyddogion gwrywaidd yn cynnal arsylwadau Lefel 4 gyda phlentyn 14 oed.'* |
| *'Bu oedi sylweddol yn yr hawliau a hawlogaethau, ond roedd hyn oherwydd bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi mynd i'r ysbyty cyn cwblhau'r asesiad risg. Ond nodwyd yn glir y dylid ei wneud ar ôl dychwelyd, ac fe'i gwnaed.'* | *'Ddim yn glir a gafodd digon o wybodaeth ei darparu ynglŷn â darparu gofal pellach.'* |